

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 13eg Ebrill, 2010, yn Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli  
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 13th April, 2010 at Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli

**Yn Bresennol/Present:** Ken Brown(Is-Gadeirydd)  
Lena Ashley; Iestyn Harris; Pat Jones;  
Eluned Owen; George Smith; Daniel Williams

**1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Cyng Sian Gwenllian; arweinwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd, Cyng Ken Brown. Estynwyd croeso i'r Cynghorwyr.

In the absence of the Chairman, Cllr Sian Gwenllian, Cllr Ken Brown directed the meeting. A welcome was extended to the Councillors.

**2) Ymddiheuriadau/Apologies:** Sian Gwenllian; Aled Job,  
Carolyn Pritchard, Pat White

**4) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None**

**5) Cofnodion/Minutes:**

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Mawrth fel rhai cywir.

Minutes of the Meeting held on 9th March were confirmed as correct.

**6) Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:**

- i) Gwefan Cymunedol – 32,960 o ymweliadau yn ystod mis Mawrth 2010.  
Disc ffordd osgoi Bontnewydd/Caernarfon – wedi ei gynnwys ar y wefan
- ii) Traffic a Parcio – Maes Parcio tu cefn i Neuadd yr Eglwys – Cyng Sian Gwenllian, Cyng Ken Brown a Mr Len Williams i gyfarfod gyda Idwal Williams, Swyddog Cynllunio a Gareth Roberts, Priffyrdd Cyngor Gwynedd.  
Cyfyngu amser parcio ar Stryd Bangor – Disgwyl i Gyngor Gwynedd weithredu.  
Gardd Fon – Disgwyl i Gyngor Gwynedd weithredu.
- iii) Canolfan Iechyd Rowen : Dim i'w adrodd.
- iv) Felin Daclus :– Llwybr preifat rhwng Uwch Menai/Penceunant/Stryd Menai.  
Gwaith wedi ei wneud – Cyng Daniel Williams i gael golwg.
- v) Tai Fforddiadwy : Tan y Maes, Y Felinheli - Trafodaethau yn mynd ymlaen.  
Les tir yr hen rheilffordd, Ffordd Caernarfon – dim ymhellach i adrodd ar hyn o bryd.

- vii) Astudiaeth yr A487 Caernarfon i'r Bontnewydd – Dynwarediad o'r dair ffordd ar y wefan. Penderfyniad: cynnwys fel eitem ar agenda'r cyfarfod blynyddol ac i aelodau o'r cyhoedd i gael cyfle i weld a thrafod y cynnigion.
- viii) Baw Cwn – y broblem yn parhau. Clerc i gysylltu a Peter Simpson. Cynnig bod biniau newydd yn cael eu lleoli yn y Wern, dros ffordd ar Ysgol Steipiau Cei ac ar Lon Las. Trafodaeth ymhellach yn y cyfarfod nesaf ar Cynghorwyr i benderfynnu lleoliadau biniau newydd.
  - i) Community Web Site – 32,960 hits during the mont of March. The simulation disk of the proposed Bontnewydd / Caernarfon by-pass is now available on the web site.
  - ii) Traffic and Parking – New Parking Area at the rear of Church House – Cllrs Sian Gwenllian, Ken Brown and Mr Len Williams to meet with Idwal Williams Gwynedd Planning Officer and Gareth Roberts, Highways Dept. Parking Restrictions – Waiting for Gwynedd Council to implement. Gardd Fon, Y Felinheli – Waiting for Gwynedd Council to implement.
  - iii) Rowen Health Centre – Nothing further to report.
  - iv) FELIN DACLUS - Private footpath between Uwch Menai/Penceunant, Menai Street. The work has been completed. Cllr Daniel Williams to inspect.
  - v) Affordable Housing : Tan y Maes, Y Felinheli. Discussions on-going.
  - vi) Lease on the old Railway Line, Caernarfon Road – nothing further to report at present.
  - vii) A487 Caernarfon to Bontnewydd study – a simulation of the three routes is now on the web site. DECISION: To include on the agenda for the Annual Meeting so that members of the public can view and comment on the Proposals
  - viii) Dog Fouling – problem persisting. Clerc to contact Peter Simpson. Suggested that new bins be located at Y Wern, opposite the school, steps to the quay and Lon Las. Further discussion at the next meeting after Councillors have decided the location of the new bins.

7) **Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report**

Cafwyd grynodedb o benderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli gan Cyng Daniel Williams. Eglurodd bod cynllun manwl ar bapur a bod y cynllun yma wedi cyfarfod a chyrraedd dibenion and anghenion defnyddwyr. Yn anffodus nid oes digon o arian i gwblhau'r gwaith ac bydd rhaid rhannu'r brosiect i ddwy gyfnod. Bydd Cyfnod 1 yn gwneud cymaint a phosib gyda'r arian sydd ar gael ac yna cwblhau'r ail gyfnod gyda'r gobaiith y bydd mwy o arian ar gael. Mae'r rhagolygon yn addawol a bu'r holl waith yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2011/2012 ond yn y cyfamser bydd pwyslais ar gwblhau'r gwaith mewnol yn y cyfnod cyntaf gan adael y gwaith allanol i'r ail gyfnod. Adroddwyd hefyd bod darpar adeiladwr wedi ei benodi a bydd y Pensaer yn cysylltu er mwyn cadarnhau'r penodiad ac hefyd yn trafod dyddiad cychwyn yn ogystal ac arbediadau fydd angen er mwyn dod ar gwaith oddimewn y gyllideb.

A summary of the decisions made by the Management Committee was reported by Cllr Daniel Williams. It was explained that detailed plans had been committed to paper and that the plans meet and satisfy the needs of the users. Unfortunately, there is insufficient capital to complete the whole project and therefore it will be divided into 2 phases with the second phase being completed during the 2011/2012 financial year. The forecast is promising that the project will be completed in 2011/2012 but in the meantime the project will concentrate on the internal works during phase 1 leaving external works to phase 2. Reported that a contractor had been provisionally appointed and the Architect will be contacting the contractor to confirm the appointment, to discuss a starting date in addition to savings required to bring the project within budget.

**8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:**

Cadarnhawyd gwariant Mis Mawrth.

Derbyniwyd mantolen ariannol am y flwyddyn 2009/2010 a bydd y Clerc yn cyflwyno'r cyfrifon i'w mabwysiadu yng nghyfarfod mis Mai. Yn y cyfamser, Cyng Iestyn Harris a Carolyn Pritchard i archwilio'r cyfrifon.

Payments for the month of March were confirmed.

A financial statement was distributed for the financial year 2009/2010 and the Clerk will be presenting the accounts for adoption at the May meeting. In the meantime, Cllrs. Iestyn Harris and Carolyn Pritchard to audit the accounts.

**9) Gohebiaeth/Correspondence:**

Nodwyd a gweithredwyd fel bo angen, y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.

Correspondence received during the month were noted and acted upon as necessary.

**1) Cyngor Gwynedd Council -**

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - gwaith rhagbaratoawl - Gwynedd Local Development Plan - preparatory work

Fforwm "Rheoli Risg Llifogydd a'r Arfordir" 27 Ebrill, Siambr Arfon, Penrallt am 9.30

Flood Risk Management and the Coastline" Forum - 27 April at Siambr Arfon Penrallt at 9.30 - Cyng Ken Brown i fynychu / Cllr Ken Brown to attend

**2) Awdurdod Heddlu Cymru - Fforwm Gymunedol Awdurdod yr Heddlu Gwynedd  
Dydd Iau, 13 Mai 2010 am 7yh yn Neuadd y  
Penrhyn, Bangor**

North Wales Police Authority - Police Authority Community Forum for Gwynedd on Thursday, 13<sup>th</sup> May at 7.p.m. at Neuadd Penrhyn, Bangor.

- 3) Menter Fachwen - Ystafelloedd Cyfarfod - Meeting Rooms
- 4) Cruse Bereavement Care
- 5) Zurich - Annual Local Council Advisory Service (LCAS) Seminars 2010
- 6) Cadwn Felin dros 70% (Cyng Aled Job) - Cyng Ken Brown I gynrychioli'r Cyngor  
Cllr Ken Brown to represent the Council
- 7) Llywodraeth Cynulliad - Cynllunio'ch Cymuned - Llyfryn cyflwyno Cynlluniau  
Datblygu Lleol (CauDLI)  
Welsh Assembly - Planning your Community - A guide to Local Development  
Plans (LDPs)

**10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -**

Dim i'w adrodd / Nothing to report

**11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:**

- 1) Plot 4 Ffordd Caernarfon / Caernarfon Road, Y Felinheli

Adeiladu ty, cadw carafan dros dro a mynedfa newydd / Erection of a dwelling,  
retention of temporary caravan and new access.

**DIM GWRTHWYNEBIAD OND CONSYRN Y BYDD YR ADEILAD YN CAEL  
EI DDEFNYDDIO AR GYFER AML BRESWYLLWYR.**

NO OBJECTION BUT CONCERN THAT PROPERTY MIGHT BE USED FOR  
MULTI-OCCUPANCY PURPOSES.

**CARAFAN – DIM GWRTHWYNEBIAD – BYDD ANGEN SICRHAU NA FYDD  
LLECHFEDDIANT GORMODOL AR LON LAS.**

CARAVAN – NO OBJECTION – THERE WILL BE A NEED TO ENSURE THAT  
THERE WILL BE NO OVER ENCROACHMENT ONTO LON LAS.

- 2) Eryl Don, Ffordd Tafarn Grisau / Tafarn Grisau Road, Y Felinheli

Addasu ac ehangu yn cynnwys estyniad deulawr i'r cefn / Alterations and  
Extensions including a two storey extension to the rear

**DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION**

- 3) 52 Hen Gei Llechi – Estyniadau a newidiadau / Extension and Alterations

**DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION**

## **12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee**

Dim adroddiad / No report

## **13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee**

Maes Parcio – Felin Daclus i glirio.

Lon Las – twll ddim eto wedi derbyn sylw – atgoffa Cyngor Gwynedd.

Parking Ground – Felin Daclus to tidy up.

Lon Las – The hole had not as yet received attention – Gwynedd Council to be reminded.

## **14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee**

Llwybrau / Footpaths – Cafwyd adroddiad ar lafar gan Cyng Pat Jones yn dilyn cyfarfod gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, Mark Ballam. Eglurwyd bod posib cysylltu'r Lon Las a llwybr Cerrig yr Afon a'i gwneud yn addas ar gyfer cader olwyn. Hefyd creu llwybr i'r coed ger safle'r rhandiroedd a dychwelyd i'r Lon Las bellach mlaen. Mae Mark Ballam yn awyddus iawn i greu llwybrau ac yn gefnogol i'r syniad. Gofynwyd hefyd os iw'n bosib cyfleu gwybodaeth sydd ar y wefan i bamphled i'w ddosbarthu o gwmpas y pentref. Cyng George Smith i ymchwilio. A verbal report was presented by Cllr Pat Jones following a meeting with Mark Ballam, Gwynedd Council's Footpath Officer. It was explained that there is a possibility of linking Lon Las with Cerrig yr Afon Footpath and make it more accessible for wheelchairs. Also create a path into the woods near the site of the allotments and returning to Lon Las further along. Mark Ballam was eager to create footpaths and supports the suggestion. It was asked whether the information on the web site could be transferred onto a pamphlet for distribution in the village. Clls. George Smith to investigate.

Cysgodfan / Bus shelters

Adroddwyd bod gwydrau ar flaen y gysgodfan ger cerrig yr afon yn amlwg wedi eu dwyn. Nid oes hoel eu bod wedi malu ac felly yr unig eglurhad i'w eu bod wedi eu dwyn. Gweithrediad – Clerc i holi cost ail osod paneli newydd, ond i holi am baneli gyda tyllau ynddynt fel eu gwneud yn ddibwrpas iddynt cael eu dwyn.

Reported that it was highly likely that the panels at the front of the bus shelter near Cerrig yr Afon had been stolen. There was no evidence to suggest that they had been smashed so the only reasonable conclusion was that they had been stolen. Action – Clerk to enquire as to cost of replacements and at the same time enquire for panels with pre-drilled holes that would render the panels useless for the purpose for which they were stolen.

Taflen Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd / Nothing to report.

**15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor**

Atodwyd adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr i'r agenda.

A comprehensive written report was attached to the agenda.

**16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter**

- 1) DERBYN GYDA DIOLCH - cynnig gan Y Parch Eric Jones o gadeiriau plastig gormodol sydd yn y Capel. Capel i'w cadw tan mis Medi pan fydd gwaith y Neuadd wedi ei gwblhau.

TO ACCEPT WITH GRATEFUL THANKS –the offer from Rev Eric Jones of superfluous plastic chairs from the Chapel. Chapel to retain the chairs until September when work on the Hall is completed.

- 2) Adroddwyd fod bin sbwriel ar bostyn dros ffordd i Arvonía was ei falu. Clerc i drefnu ail-osod bin newydd.

Reported that the pole mounted rubbish bin opposite Arvonía had been ripped off. Clerk to arrange replacement.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 8.55 yh

No other matters to discuss and the Meeting finished at 8.55.p.m.